# GWAELOD Y GARTH



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

# cynnwys


**Map 1: Ardal Gadwraeth a Chyfarwyddyd Erthygl 4**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ardaloedd Cadwraeth
1.2 Gwerthusiadau
1.3 Cyd-destun y Polisi

## 2. HANES

2.1 Gwaelod-y-garth
2.2 Ymsefydlwyr Cynnar
2.3 Datblygiadau Diwydiannol
2.4 Twf y Pentref

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL

**3.1 Ansawdd Unigryw y Lle**
**3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd**
**3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat**
**3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun**
**3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel**
**3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel**
**Map 2 – Cynllun y Treflun: Yr Amgylchedd Adeiledig**
**Map 3 – Cynllun y Treflun: Yr Amgylchedd Naturiol**

## 4. ARDALOEDD Â CHYMERIAD ARBENNIG


Map 4 – Ardaloedd â Chymeriad Arbennig
4.1 Yr Hen Bentref
4.2 Main Road ac Ysgol Gwaelod-y-garth
4.3 Lôn yr Ysgol
4.4 Heol y Nant
4.5 Georgetown

## 5. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU

5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad
5.2 Manteision Eraill y Gwerthusiad
5.3 Pwysau i Newid
5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau
5.5 Diogelu'r Ardal Gadwraeth
Map 5 – Cyfarwyddyd Erthygl 4
5.6 Argymhellion

Atodiad 1 - Canllaw i Berchnogion Tai a Datblygwyr
Atodiad 2 - Cyngor am Goed a Thirlunio
Atodiad 3 - Adolygu'r Ffin
Atodiad 4 - Geirfa
Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir
Diolchiadau
Manylion Cyswllt a Gwybodaeth

# Map 1: Ardal Gadwraeth a Chyfarwyddyd Erthygl 4



## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hyn mae gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth. I reoli'r broses, mae Strategaeth Ardal Gadwraeth wedi'i pharatoi. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau i'r Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd presennol a rhai newydd. Mae'r gwerthusiad drafft hwn yn rhoi cyfle i benderfynu a oes angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth; diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth; nodi'r materion pwysig yn yr ardal a'r cyfleoedd i wella; ac ar ôl ymgynghori, mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, y gellir paratoi arweiniad priodol ar ei gyfer. Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo hyn. Gwneir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Dinas Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu.

# 2 hanes

## 2.1 Gwaelod-y-garth

Ardal ddiwydiannol ym Mhlwyf Pentyrch yw Gwaelod-y-garth, ar odre Mynydd y Garth.

Rhoddwyd yr enw i'r lle yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf - yr enw ar y lle cyn hynny oedd Pentyrch Isaf. Credir mai'r rheswm dros ailenwi'r pentref oedd i wahaniaethu rhwng dau gapel yr annibynwyr, sef yr un sydd ym Mhentyrch heddiw, a Chapel Bethlehem, a arferai fod ym Mhentyrch Isaf.

## 2.2 Ymsefydlwyr Cynnar

Mae darganfyddiadau archeolegol yn yr ardal yn awgrymu bod pobl wedi byw'n barhaol yno ers canol oes y cerrig, gyda fflintiau a ganfuwyd yn golygu y gallai'r ymsefydlwyr cynharaf fod wedi bod yn ddynion Mesolithig o Ganol Oes y Cerrig. Yn ddiweddarach, mae'n debygol bod dynion Neolithig neu o Oes Newydd y Cerrig wedi bod yn byw yn ogofâu'r Garth. Mae darganfyddiadau archeolegol yn yr ogofâu hyn yn awgrymu bod pobl wedi byw yn yr ardal yn barhaol o'r cyfnod hwn tan y cyfnod Rhufeinig a'r cyfnod dilynol. Mae tomenni claddu fel y 'ploryn' ar Fynydd y Garth yn dystiolaeth bellach o bresenoldeb ymsefydlwyr cynnar.

## 2.3 Datblygiadau Diwydiannol

Tyfodd a datblygodd Gwaelod-y-garth yn lleoliad diwydiannol o ganlyniad i'r cyfoeth mwynol naturiol a'i safle ar ochr dyffryn afon Taf, a oedd yn rhoi cysylltiadau da gyda Merthyr a Chaerdydd.

Agorodd teulu Sidney waith haearn ar raddfa fawr ym Mhentyrch yn 1565. Yn ddiweddarach, gwelwyd bod gynnau mawr wedi bod yn cael eu creu'n anghyfreithlon yno ac roedd y gwaith o ganlyniad wedi dirywio'n llwyr erbyn 1625.

Yn ystod y ddeunawfed ganrif, agorodd Gwaith Haearn newydd ym Mhentyrch rhwng 1721 a 1800, er mae'n debygol mai yn 1740 y digwyddodd hynny. Ardal Mynydd y Garth a Gwaelod-y-garth oedd un o ffynonellau mwynol Gwaith Haearn Pentyrch, gydag Afon Taf yn cyflenwi d r i'r broses. Dechreuodd glo ddisodli pren fel tanwydd yn y ddeunawfed ganrif, a chofnodwyd fod glo'n cael ei gloddio yn yr ardal yn 1714 o amgylch Gwaelod-y-garth.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ehangodd y gwaith diwydiannol yn yr ardal a dechreuodd Gwaelod-y-garth dyfu. Richard Blakemore o Felingruffudd a roddodd ddechrau i'r cyfnod newydd ffyniannus drwy brynu gwaith Pentyrch yn 1810. Yn 1815, daeth tramffordd gul Pentyrch-Melingruffudd i gysylltu'r ddau waith ynghyd â chysylltu'r pyllau glo yng Ngarth Fechan i'r de o Waelod y Garth gyda'r ffwrnais haearn. Parhaodd y cyfnod ffyniannus hwn a ddechreuwyd gan Blackmore pan ddaeth ei nai, T.W. Brooker, i gymryd yr awenau yn 1837.

Caeodd gwaith Pentyrch yn 1880, ac er i'r gwaith yn yr Hen Ffwrn barhau'n ysbeidiol, daeth i ben yn llwyr yn 1915.

Roedd glo, fodd bynnag, yn parhau i gael ei gloddio o dan y pentref tan yn ddiweddar (oherwydd roedd cloddio am lo yn fanteisiol yn economaidd hyd yn oed ar ôl i'r gwaith haearn lleol ddod i ben). Y ddau bwll glo pwysicaf yn yr ardal oedd Pwll Glo Garth Rhondda a Phwll Glo Llan. Caeodd Pwll Glo Llan yn 1885.

## 2.4 Twf y Pentref

Mae map degwm 1838/39 yn dangos yr arferai Gwaelod-y-garth fod yn bentref hanner ei faint presennol. Rhwng yr 1840au a'r 1880au yr ehangodd Gwaelod-y-garth, pan adeiladwyd y terasau presennol o fythynnod y gweithwyr haearn ar ochrau'r bryn. Codwyd Capel Salem yn 1871.

Flwyddyn yn ddiweddarach, codwyd Capel newydd Bethlehem ger y briffordd, yn lle'r hen gapel yng ngwaelod Rhiw'r Ceiliog a adeiladwyd yn 1831.

Erbyn canol yr 1800au, gwellodd y mynediad i Waelod-y-garth ac arweiniodd y galw am ragor o ddeunyddiau at ddatblygiadau mawr. Cafodd y dramffordd, a oedd ond yn cyrraedd bryniau i'r de o Waelod y Garth yn 1840, ei hymestyn erbyn y 1890au i gymryd lle'r llwybr troellog o Fynydd y Garth i Waith Pentyrch.

Adeiladwyd bythynnod y Gweithwyr Haearn gyda charreg leol a gloddiwyd o Fynydd y Garth, naill ai ar hyd y llwybr gogleddol/deheuol, neu gyferbyn â hwnnw ar ochrau serth Mynydd y Garth. Mae rhai o'r bythynnod gwreiddiol wedi diflannu erbyn heddiw, a symudodd llawer o'r trigolion i Garth Olwg a Stad Gyngor Heol Berry pan gawsant eu dymchwel.

Mae'n ymddangos bod pwysigrwydd y llwybr i Efail Isaf a Llantrisant wedi dirywio yn y cyfnod hwn, fel y gwnaeth y llwybr dros dir uchel Mynydd y Garth i Bentyrch a Llantrisant. Ar yr un pryd, bu gwelliannau i'r cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de drwy Ddyffryn Afon Taf, ac yn ddiweddarach daeth ffordd newydd yn y dwyrain (sef yr A470 bellach) yn lle'r hen un drwy Waelod-y-garth. O ganlyniad, dirywio wnaeth pwysigrwydd Gwaelod-y-garth fel canolfan rhwng y de a'r gogledd ar ffordd Caerdydd a Merthyr.

# 3 asesu cymeriad

**Mae nifer o nodweddion allweddol wedi'u nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. Maent yn dilyn cyngor gan y llywodraeth ac wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997.**

Y rhain yw:

- Ansawdd nodedig y lle.
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd.
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat.
- Deunyddiau lleol neu anarferol o ansawdd uchel yn y treflun.
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel.
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel.

Mae dadansoddiad o bob un isod.







- Yr Hen Swyddfa Post a Post Office Row, Main Rd
- Main Rd a'r Garth
- Garth Olwg

## 3.1 Ansawdd Unigryw y Lle

Mae gan Waelod-y-garth gymeriad amlwg a chryf, yn seiliedig ar ddiwydiant a mwyngloddio'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Ffurf y tir (dyffryn afon serth ar odre Mynydd y Garth) sydd wedi dylanwadu ar y defnydd o'r tir, diwydiant, mwyngloddio a datblygiadau adeiladu;
- Adeiladau (eu cynllun, lleoliad, gogwydd, graddfa a'u perthynas â'i gilydd);
- Nodweddion ffiniol (cloddiau a waliau)
- Y defnydd o'r tir (diwydiant, coetir, datblygiadau preswyl, ysgol, priffordd).

Datblygwyd yr Ardal Gadwraeth yn bennaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar yr un pryd â chynnydd mewn mwyngloddio a gwaith diwydiannol yn yr ardal.

## Grwpiau o Adeiladau

Yn gyffredinol, un pentref hir yw Gwaelod-y-garth, wedi'i ddatblygu ar hyd Main Road gyda rhesi byr o fythynnod deulawr, carreg.

Tan ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd yr adeiladau ar y cyfan i'w cael yn rhan ogleddol y pentref, mewn rhesi o derasau byr ar yr ochr uchaf i Main Road a ffordd y mynydd (i'r gorllewin), yn edrych i lawr ar Ddyffryn Taf.

Ar y cyfan, mae'r datblygiadau ar Main Road ar ochr yr afon (i'r dwyrain) yn rhai diweddarach, sydd wedi ymddangos yn raddol ac yn achlysurol. Mae'r datblygiadau ar yr ochr hon yn afreolaidd, gyda bylchau rhwng yr adeiladau sy'n rhoi golygfeydd o ddyffryn yr afon, llwybrau a choedwigoedd. Mae'r datblygiadau wedi dilyn llinell wreiddiol y pentref, ac eithrio Garth Olwg, sy'n ymledu i ffwrdd o Main Road.

Mae mwy o amrywiaeth yn y grwpiau o adeiladau yng nghanol yr Ardal Gadwraeth, o amgylch yr ysgol a Chapel Bethlehem. Mae Lôn yr Ysgol, sy'n arwain i ffwrdd o Main Road, yn torri ar batrwm llinellog y pentref sy'n arbennig o amlwg yn y rhan ogleddol, er bod y mwyafrif o'r adeiladau o hyd o amgylch Main Road ei hun.

Mae'r cartrefi yn yr ardal ganolog rywfaint yn fwy na bythynnod gwreiddiol y gweithwyr, ac yn adlewyrchu amrywiaeth o arddulliau pensaernïol yn dyddio o'r cyfnod Edwardaidd ac wedi hynny. Adlewyrchir hyn ym mhatrwm y grwpio, gan mai tai pâr a thai unigol yw mwyafrif y tai yn yr ardal hon. Fodd bynnag, mae'r eiddo hŷn yn yr ardal (Hen Dŷ'r Ysgol a Garth Villas) yn parhau i adlewyrchu'r tai teras sydd yng ngogledd y pentref.

Mae cymeriad rhan ddeheuol yr Ardal Gadwraeth yn sylweddol wahanol i weddill y pentref, gyda dwy arddull nodedig. Mae Georgetown yn grŵp bychan o fythynnod, sy'n adlewyrchu terasau rhan hŷn y pentref. Mae Heol-y-Nant a rhan ogleddol Heol Berry yn grŵp o dai cyngor a adeiladwyd yn 1947 o dan ddylanwad y mudiad Celf a Chrefft ac egwyddorion yr ardd-bentref. Mae'r tai mewn parau ac wedi'u lleoli o amgylch man agored cyhoeddus ffurfiol.

## Graddfa

Yn hanesyddol, roedd bythynnod y gweithwyr yng Ngwaelod-y-garth yn rhai deulawr a chymharol fychan. Adlewyrchir y raddfa gymharol fechan hon mewn datblygiadau diweddarach yn yr Ardal Gadwraeth.

Mae rhywfaint o eiddo hanesyddol mwy yn y pentref, sy'n adlewyrchu statws y bobl oedd yn byw yno, neu bwysigrwydd yr adeiladau i'r gymuned (e.e. Tŷ'r Ysgol, Garth Inn).

Mae'r eiddo modern yn dueddol o gymryd mwy o le na'r bythynnod gwreiddiol, ond fod y rhan fwyaf wedi cadw graddfa a maint sy'n adlewyrchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

## Golygfeydd

Ym mhen mwyaf deheuol Main Road sy'n arwain i'r Ardal Gadwraeth, prin yw'r golygfeydd drwy'r ardal ac ohoni, gan fod Mynydd y Garth yn codi ar ochr y gorllewin a choetir ar ochr y dwyrain. Mae'n rhoi argraff o ffordd werdd gaeedig yn troelli drwy'r pentref.

Yn rhan ogleddol y pentref, daw'r golygfeydd o ddyffryn Taf i'r golwg. Mae'r eiddo yn y fan hon wedi elwa'n hanesyddol o'r golygfeydd, o'u lleoliad gyfochr â Main Road.

## Patrymau Defnydd

Ar y cyfan, defnydd preswyl sydd i'r tir yn yr Ardal Gadwraeth heddiw, ond mae'r cysylltiadau cryf gyda'r gorffennol diwydiannol a'r mwyngloddio yn dal i'w gweld.

Mae'r garej a'r depo yn ne'r Ardal Gadwraeth yn dangos lle bu'r gweithgarwch diwydiannol olaf yn y pentref. Mae diwydiant a mwyngloddio'n parhau'n bwysig yn yr ardal, gyda stad ddiwydiannol a chwarel gerrig y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, a mynediad iddynt o Heol Goch/Main Road. Fodd bynnag, ychydig o effaith y mae'r rhain yn ei gael ar gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Mae olion cefndir diwydiannol y pentref o hyd i'w gweld, gyda siafftiau pwll a strwythurau diwydiannol tebyg yn amlwg yn y coedwigoedd cyfagos, ynghyd â lleoliad hen reilffyrdd sy'n cael eu defnyddio o hyd fel llwybrau troed cyhoeddus.









- Main Rd
- Hen Fwthyn yr Ysgol
- Bryn Taf, School Lane
- Yr Olygfa o Main Rd









- Olion Diwydiannol
- Salem Row
- Gwaelod y Garth Inn
- Capel yr Annibynwyr, Bethlehem

Yn gymunedol, mae'r pentref yn troi o amgylch yr ysgol gynradd, neuadd y pentref a'r eglwys, sydd yng nghanol y pentref.

Mae Gwaelod y Garth Inn, i gyfeiriad y gogledd, yn bwysig i'r gymuned leol ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ffurfiol. Gerllaw, mae'r hen swyddfa bost a gafodd ei throi yn gartref preifat yn ddiweddar. Yn wreiddiol, roedd siopau a chyfleusterau tebyg yn rhan ogleddol y pentref, er nad ydynt bellach yno.

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd

Mae tri adeilad rhestredig a dros ddeg adeilad ar hugain sydd wedi'u rhestru'n lleol yn yr Ardal Gadwraeth. Gellid ystyried y rhan fwyaf o'r adeiladau hyn yn dirnodau ynddynt eu hunain. Fodd bynnag, ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

### Capel Salem (gynt)

Adeilad Rhestredig Gradd II yw Capel Salem, a adeiladwyd yn 1871 i wasanaethu'r gweithwyr diwydiannol yng Ngwaelod-y-garth. Mae wedi'i addasu erbyn hyn yn gartref, ond mae'r ymddangosiad allanol yn dal i adlewyrchu'r gwreiddiol. Mae'n dirnod pwysig ar ffin ogleddol y pentref.

### Salem Row

Teras o saith bwthyn carreg sydd wedi'u rhestru'n lleol yw Salem Row. Mae'r tai'n debyg o ran arddull, graddfa a manylion i fythynnod eraill y pentref, ond yn unigryw o gymharu â lleoliad y rhes sy'n arwain o'r gogledd i'r de.

Yn anarferol, mae hyn wedi golygu bod y bythynnod fel pe baent yn wynebu'r ffordd anghywir. Y 'cefn', neu waliau cefn y gerddi, yw'r waliau sy'n fwyaf amlwg i'w gweld ac wedi'u cadw orau, a hynny'n cyfrannu'n sylweddol at natur y pentref. Y waliau 'blaen' yw'r rhai lleiaf amlwg, a'r rhai sydd wedi'u haddasu fwyaf.

### Gwaelod y Garth Inn

Adeilad carreg yw Gwaelod y Garth Inn, oedd wedi'i rendro yn y gorffennol, gyda chynllun deulawr syml a thalcen to. Mae wedi'i leoli'n amlwg yn rhan ogleddol y pentref ar hyd Main Road. Tra nad yw'n adeilad rhestredig nac wedi'i restru'n lleol, ystyrir fod Gwaelod y Garth Inn yn dirnod lleol pwysig o ganlyniad i'w gysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol cryf gyda datblygiad y pentref.

### Capel yr Annibynwyr Bethlehem

Dyma gapel Rhestredig arall Gradd II, a adeiladwyd yn 1872 wrth i'r pentref ehangu o ganlyniad i ddatblygiadau yn y gweithfeydd haearn, y chwareli a'r pyllau glo. Yn wreiddiol, roedd y capel a'r ysgol dros y ffordd yn rhannu'r un lleoliad.

Gyda siâp syml tebyg a thalcen to fel Capel Salem, mae plastr garw, gro chwipio a rendr sment ar y waliau, a llechi o Gymru ar y to.

## Ysgol Gwaelod-y-garth a Neuadd y Pentref

Adeiladau carreg a phortacabins yw ysgol Gwaelod-y-garth, gyda'r adeilad ar y pen dwyreiniol yn un Rhestredig Gradd II.

Ynghyd â neuadd y pentref gerllaw, mae'r ysgol yn dirnod o ganlyniad i'w lleoliad yng nghanol yr Ardal Gadwraeth a'r ffaith ei bod yn ganolfan gymunedol bwysig.

## Tŷ'r Ysgol

Adeilad carreg atyniadol gyda bricio manwl yw Tŷ'r Ysgol, i'r de o'r ysgol ei hun ar Main Road. Fe'i adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gartref i'r ysgolfeistr, ac mae ansawdd y deunyddiau a manylder yr adeiladu yn dangos pwysigrwydd lleol y tŷ.

## Nodweddion Tirwedd

Llethrau serth Mynydd y Garth a dyffryn afon Taf sy'n diffinio Gwaelod-y-garth. Mae'r naill a'r llall wedi dylanwadu ar ei ddatblygiad drwy'r cyfoeth o fwynau a'r cysylltiadau lleol a ariannodd dwf yr ardal. Mae'r nodweddion topograffaidd hefyd wedi dylanwadu ar siâp, lleoliad a natur yr adeiladau yn y pentref ac o'i amgylch.

## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Mae llawer iawn o gefn gwlad cyhoeddus a mannau agored eraill yn yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y llwybrau ar hyd Afon Taf a'r coetir i'r dwyrain o'r pentref, a'r llwybrau ar y bryniau i'r gogledd a'r gorllewin.

Mae gan yr Ardal Gadwraeth rwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus, gyda nifer ohonynt yn dilyn yr hen dramffordd a'r rheilffordd. Mae pont droed (Pont Shôn Phillip) yn cysylltu Gwaelod-y-garth gyda Ffynnon Taf dros yr afon.

Mae'r tir cyhoeddus a'r tir preifat yn yr Ardal Gadwraeth wedi'i ddiffinio'n glir. Ceir ffiniau amlwg i ddiffinio mannau preifat, fel waliau, ffensys a chloddiau, ynghyd â chyrtiau blaen neu erddi preifat, bylchau yn ôl o'r ffordd a newidiadau mewn lefelau.

Mae'r hawliau tramwy cyhoeddus a'r ffyrdd cyhoeddus wedi'u harwyddo'n dda, sy'n golygu bod modd eu defnyddio a chyrraedd yr ardaloedd cyfagos o gefn gwlad yn hwylus.

## 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau gwahanol i'w cael yng Ngwaelod-y-garth, gan gynnwys gwaith cerrig, bricio a rendro. Mae'r deunyddiau'n adlewyrchu oedran a phwrpas yr adeiladau a'r treflun.

Yn rhan ogleddol y pentref, mae'r deunyddiau'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad arbennig yr ardal. Carreg yw'r deunydd amlwg yn yr ardal hon, gyda bythynnod y gweithwyr a'r waliau ffiniol wedi'u codi o gerrig llanw amrywiol, a llechi o Gymru ar y toeau. Mae'r rhan fwyaf o'r manylion ar y bythynnod hyn, fel siliau, ochrau a thopiau'r ffenestri, hefyd wedi'u creu o garreg. Ceir sawl enghraifft o ddeunyddiau gwahanol sy'n creu effaith addurniadol - er enghraifft, y brics o amgylch y ffenestri yn Woodlands.









- Ysgol Gwaelod-y-garth
- Neuadd y Pentref
- Tŷ'r Ysgol
- Llwybrau Amlwg









- Main Rd (gogledd)
- Tŷ Ffigys
- Heol Berry
- Main Rd

Mae rendr a chladin hefyd ar rai o'r adeiladau gwreiddiol yn yr ardal hon, er mai ar yr eiddo mwy o faint neu'r rhai pwysig yn y gymuned y mae hyn yn bennaf, fel Tŷ Isaf, Tŷ Ffigys a'r Swyddfa Bost.

Mae rendr concrid wedi'i ddefnyddio'n gynyddol ar adeiladau diweddarach yn yr ardal, fel dewis rhatach i gerrig.

Mae'r tai cyngor yn ne'r Ardal Gadwraeth, ar hyd Heol y Nant a Heol Berry, wedi elwa'n fawr o ansawdd y deunyddiau a ddefnyddiwyd i'w codi. Mae rendr golau ar y tai hyn, gyda cherrig addurniadol o amgylch y ffenestri a'r drysau. Yn wreiddiol, byddai'r ffenestri'n rhai metel gyda chwareli gwydr plwm, ond mae gan y mwyafrif o'r tai ffenestri UPVc erbyn hyn.

Bythynnod carreg wedi'u rendro yw'r rhai yn Georgetown, gyda'r waliau blaen (gogleddol) wedi'u peintio mewn nifer o liwiau gwahanol.

Mae cyfuniad o ddeunyddiau i'w cael yng nghanol yr Ardal Gadwraeth o amgylch yr ysgol a Chapel Bethlehem, gan gynnwys cerrig lleol, rendr, brics ac amrywiaeth o ddeunyddiau modern. Mae'r rhain yn adlewyrchu gwahanol oedrannau ac arddulliau'r adeiladau yn yr ardal hon.

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Ar y cyfan, ac yn hanesyddol, bythynnod deulawr, cymharol fychain i weithwyr sydd yng nghanol y pentref, ynghyd â chyfleusterau cymunedol, gydag adeiladau diweddarach mewn sawl arddull wedi'u codi wrth i'r pentref dyfu a ffynnu. Ceir dadansoddiad byr o'r manylion cyffredin ac unigryw yn yr Ardal Gadwraeth isod.

### Bythynnod Carreg

Mae bythynnod y mwyngloddwyr yn ganolog i gymeriad arbennig y pentref, ac i ddeall ei ddatblygiad cymdeithasol, diwydiannol ac economaidd. Mae'r rhain i'w cael yn bennaf yn rhan ogleddol y pentref, er bod enghreifftiau o'r bythynnod carreg syml hyn ymhellach i'r de, yn Lôn yr Ysgol a Georgetown.

Nid oes dim yn ymhonnus ynddynt o ran graddfa na ffurf. Mae'r bythynnod yn rhai deulawr a'u siapiau'n syml, gyda'r waliau o dywodfaen lleol, talcenni at y toeau a llechi Cymreig. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw addurniadau pensaernïol pellach ar y bythynnod, gan adael manylion cerrig neu fric syml ac ymarferol o amgylch y ffenestri a'r drysau'n unig.

Tra bo'r mwyafrif o'r bythynnod wedi gosod ffenestri a drysau newydd dros y blynyddoedd, mae gan nifer ohonynt y ffenestri 12 cwarel neu sash traddodiadol.

Mae'r bythynnod wedi'u codi'n agos at y ffordd ac maent yn dilyn yr un llinell adeiladu. Nid oes unrhyw bortshys nac ychwanegiadau eraill ar y waliau blaen sy'n effeithio ar undod pensaernïol y terasau. Mae nifer o'r bythynnod sy'n wynebu Main Road uwchben lefel y stryd, gyda waliau cerrig uchel a thyllau glo yn arwain o Main Road.

Mae'r bythynnod yn Salem Row a Grangetown yn wahanol i'r gweddill yn yr Ardal Gadwraeth, gan fod eu lleoliad yn golygu bod y waliau 'blaen' yn llai amlwg i'r cyhoedd na'r 'cefn', neu waliau'r gerddi cefn. Mae hyn yn golygu bod rhagor o ryddid a chyfleoedd i amrywio wrth wneud gwaith i'r waliau 'blaen', tra mai prin o gymharu yw'r addasiadau i'r waliau 'cefn' (sy'n wynebu'r ardd).

## Capel Salem

Hen gapel mewn arddull glasurol syml yw hwn, wedi'i adeiladu â haenau o gerrig llanw gyda brics o'u hamgylch, conglfeini o gerrig a tho llechi o Gymru. Mae gan y ffasâd yn y talcen dair ffenestr pen crwn gyda nifer o baenau, siliau cerrig a gwydr lliw.

## Capel yr Annibynwyr Bethlehem

Capel syml yw hwn gyda thalcen at y to, wedi'i adeiladu o gerrig a'i orchuddio mewn plastr garw a gro chwipio, conglfeini wedi'u rendro, platbandiau, addurniadau o amgylch y drysau a'r ffenestri a tho llechi o Gymru. Mae gan y talcen ar y tu blaen ffenestri sash pen crwn i'r llawr cyntaf, a ffenestri pen sgwâr tebyg i'r llawr gwaelod ar y naill ochr i'r drws canol, sydd â phen crwn.

## Tai Edwardaidd ac o ddechrau'r ugeinfed ganrif

Mae sawl enghraifft o adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yng nghanol yr Ardal Gadwraeth, ger yr ysgol a Chapel yr Annibynwyr, er bod rhai enghreifftiau hefyd yng ngogledd y pentref.

Mae'r enghreifftiau o dai pâr Edwardaidd (fel Brynderwen a Brynteg), filas mewn terasau (Garth Villas) a filas unigol (e.e. Bryntaf) yn dangos yr amrywiaeth o fanylder pensaernïol sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Mae'r rhain yn cynnwys baeau gyda thalcenni, baeau octagon, fframiau pren, y defnydd o rendr a bric, ffenestri oriel a ffenestri sash pren.

Mae enghreifftiau o adeiladau sydd wedi'u dylanwadu gan y mudiad Celf a Chrefft hefyd i'w gweld yn y pentref. Mae gan y rhain rendr garw, gyda llai o addurniadau allanol, a drysau a ffenestri sy'n dangos dylanwad Celf a Chrefft neu Art Deco.

## Heol y Nant

Adeiladwyd y tai yn Heol y Nant a phen gogleddol Heol Berry ar gyfer y rheiny a arferai fyw ym mythynnod y mwyngloddwyr ar Fynydd y Garth. Maent yn enghreifftiau da o ddatblygiadau trefol yn cael eu dylanwadu gan y mudiad Celf a Chrefft ac egwyddorion yr Ardd-Bentref.

Mae'r tai hyn wedi'u hadeiladu i gynllun syml, gyda baeau llydan a thalcenni at y to yn y tu blaen. Mae'r manylion yn syml ond o ansawdd uchel iawn, gyda waliau wedi'u rendro mewn lliw gwyn neu hufen a ffenestri mwliwn carreg. Mae ffenestri newydd UPVc wedi'u gosod yn y rhan fwyaf ohonynt, er bod rhai enghreifftiau'n dal i'w gweld o'r ffenestri dur gwreiddiol, sydd wedi'u peintio'n wyn gyda chwareli gwydr plwm.









- School Lane
- Bethlehem Capel yr Annibynwyr
- Main Rd
- Heol y Nant

# 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel










- Wal carreg ar Main Rd
- Wal carreg a twll glo ar Main Rd
- Dodrefn stryd ar Main Rd
- Gwaelod-y-garth yn ei tirlun naturiol

## Tirlunio Caled

Concrid a tharmac cyffredin yw deunydd y palmentydd a wyneb y ffyrdd drwy'r ardal, ac mae eu cyflwr yn amrywio.

Nid yw rhai o'r lonydd llai yn yr ardal wedi'u mabwysiadu fel priffyrdd. Ychydig o waith cynnal a chadw sydd wedi'i wneud ar y rhain, nes mai dim ond llwybrau graean ydynt mewn gwirionedd, fel rhan ddeheuol Lôn yr Ysgol.

Mae'r defnydd o gerrig yn y waliau ffiniol yn cyfrannu'n helaeth at gymeriad yr ardal, yn enwedig yn rhan ogleddol y pentref, er nad yn y fan honno'n unig. Mae'r waliau cerrig ffiniol yr un mor amlwg o amgylch yr ysgol, gyda manylion gwahanol fel brics neu bileri a chopin cerrig. Mae rheiliau a giatiau haearn yn amlwg trwy'r pentref.

Arddull a phwrpas defnyddiol sydd i'r dodrefn stryd yn yr ardal. Mae hyn yn cyd-fynd â hanes a gwreiddiau'r pentref, er bod pryderon wedi'u mynegi am eu cyflwr ac am achosion o fandaliaeth a graffiti.

## Coed a Thirlunio Meddal


Mae prif gymeriad y dirwedd yn yr Ardal Gadwraeth yn deillio o'r coetiroedd a'r coed, yn hytrach nag unrhyw blanhigion lefel isel eraill.

Ceir dwy lain sylweddol o goed fforest mawr yn yr ardal. Mae un yn ymestyn rhwng yr afon a Main Road ac yna i'r dwyrain o Main Road, ac yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur ar hyd glan yr afon. Mae'r llall yn ymestyn i fyny'r bryn o Main Road ac yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yn yr ardal o gefn gwlad ar Fynydd y Garth. Mae'r lleiniau gwyrdd pwysig hyn yn amgylchynu'r pentref ac yn diffinio'i nodweddion tirwedd trawiadol mewn ceunant naturiol.


I'r gogledd o'r pentref, mae cloddiau brodorol yn diffinio ffiniau gwahanol eiddo ac yn amgylchynu Merthyr Road gynt sy'n arwain i'r gogledd o'r pentref.

Mae'r cloddiau ffiniol isel yn y tai trefol yn Heol y Nant ac yng ngogledd Heol Berry yn elfennau pwysig o'r egwyddorion Gardd-Bentref a oedd yn sail i'w cynllun.

# Map 2 Cynllun y Treflun : Yr Amgylchedd Adeiledig




# Map 3 Cynllun y Treflun: Yr Amgylchedd Naturiol



# 4 ardaloedd â chymeriad arbennig

Oherwydd bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth yn amrywio cymaint mewn gwahanol rannau, mae'r ardaloedd canlynol sydd â chymeriad arbennig wedi'u nodi ar gyfer eu hasesu'n fanylach, a rhoi syniad cliriach o'r cyfleoedd i'w gwella. Rhoddir sylw i bob un fel a ganlyn.

## Map 4 Ardaloedd â Chymeriad Arbennig











- Main Rd
- Yr Hen Swyddfa Post
- Bwrdd gwybodaeth lleol, Main Rd
- Twnnel i Bont Shôn Phillips

## 4.1 Yr Hen Bentref

- Rhan ogleddol Gwaelod-y-garth yw'r rhan hanesyddol, sydd â chymeriad pentrefol o hyd.
- Ceir bythynnod carreg syml ar odre Mynydd y Garth, gyfochr â Main Road yn edrych i lawr ar Afon Taf.
- Mae waliau ffiniol a waliau cynnal uchel sydd wedi'u hadeiladu o gerrig llanw lleol yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal.
- Mae Garth Olwg wedi torri ar batrwm llinellog yr ardal.

## Materion

- Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn diogelu'r eiddo sydd wedi'u rhestru'n lleol yn yr ardal hon, drwy reoli mân addasiadau a manylion pensaernïol fel ffenestri a phortshys.
- Nid yw'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn diogelu waliau cefn (gerddi) Salem Row yn ddigonol, sy'n deras o dai blaenau dwbl.
- Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw a rheoli'r coed ger yr afon ac ar ochr y bryn, er mwyn sicrhau bod llwybrau'n agored a bod golygfeydd allweddol yn glir.
- Mae achosion o fandaliaeth wedi bod ar y grisiau a'r twnnel sy'n arwain at Bont Shôn Phillip. Mae angen rhoi sylw i waith cynnal a chadw ar y bont a'r llwybrau tuag ati.
- Mae galw mawr am barcio ar y stryd gydol y dydd.
- Mae waliau ffiniol a waliau cynnal uchel sydd wedi'u hadeiladu o gerrig llanw lleol yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal.
- Mae ôl dirywio ar y bwrdd gwybodaeth lleol.
- Mae storio 'biniau olwyn' yn broblem mewn sawl eiddo yn yr ardal.

## Cyfleoedd i Wella

- Cynnal adolygiad o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.
- Rheoli'r coetir a'r cefn gwlad cyfagos.
- Sicrhau bod yr ardal o gefn gwlad sy'n ffinio yn cael ei diogelu'n briodol drwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Gwella llwybrau troed gan osod goleuadau ac arwyddion, a chynnal a chadw'n barhaus.
- Cynnal adolygiad o'r system reoli traffig bresennol a'r trefniadau parcio yn y pentref.
- Cynnal a gwella'r dirwedd galed a'r dodrefn stryd cyhoeddus.
- Parchu graddfeydd, cynlluniau a ffurfiau adeiladu ym mhob cais cynllunio ar gyfer datblygu.
- Cadw a diogelu deunyddiau adeiladu gwreiddiol (e.e. cerrig, brics, haearn) pan ddaw ceisiadau cynllunio i law.
- Adnewyddu'r bwrdd gwybodaeth lleol (Project Llwybrau Troed Cymuned Pentyrch.)

# 4.2 Main Road ac Ysgol Gwaelod-y-garth

- Mae'n ganolfan i'r gymuned, gydag ysgol gynradd, neuadd bentref a chapel yno.
- Mae golwg y stryd yn amrywiol, gydag adeiladau yn ôl o'r ffordd a gerddi ffrynt bychain.
- Mae perthynas gref rhwng yr adeiladau a'r stryd.
- Mae'r waliau ffiniol cerrig a brics yn diffinio'r mannau cyhoeddus a phreifat.
- Mae llawer iawn o'r manylion gwreiddiol ar y tai.

## Materion

- Mae galw mawr am lefydd parcio ger gatiau'r ysgol, ac mae hynny'n amharu ar ansawdd golwg y stryd.
- Amrywiol yw ansawdd yr adeiladau, gydag eiddo Edwardaidd safonol a rhai modern.

## Cyfleoedd i Wella

- Cynnal adolygiad o'r system reoli traffig bresennol a'r trefniadau parcio yn y pentref.
- Parchu graddfeydd, cynlluniau a ffurfiau adeiladu ym mhob cais cynllunio ar gyfer datblygu.
- Cadw a diogelu deunyddiau adeiladu gwreiddiol (e.e. cerrig, brics) pan ddaw ceisiadau cynllunio i law.
- Cynnal a gwella'r dirwedd galed a'r dodrefn stryd cyhoeddus.

# 4.3 Lôn yr Ysgol

- Mae Lôn yr Ysgol wedi cadw'i chymeriad gwledig, gyda'r coetir amgylchynol a dim gormod o ddatblygiadau preswyl.

## Materion

- Gallai'r galw am ddatblygu yn yr ardal hon effeithio ar ei chymeriad gwledig arbennig ac amharu ar y pentref.
- Mae'r coetir a'r afon gyfagos, ynghyd â'r dystiolaeth amlwg o dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal, yn cyfrannu at ei chymeriad arbennig.
- Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu Lôn yr Ysgol ar ei hyd. Mae hyn wedi arwain at amrywiaeth yn ansawdd wyneb y ffordd a'i gyflwr.

## Cyfleoedd i Wella

- Parchu graddfeydd, cynlluniau a ffurfiau adeiladu ym mhob cais cynllunio ar gyfer datblygu.
- Cadw a diogelu deunyddiau adeiladu gwreiddiol (e.e. cerrig, brics) pan ddaw ceisiadau cynllunio i law.
- Gwella llwybrau troed gan osod arwyddion a chynnal a chadw'n barhaus.
- Rheoli'r coetir a'r cefn gwlad cyfagos.
- Cynnal a gwella'r dirwedd galed a'r dodrefn stryd cyhoeddus.









- Bethlehem Capel yr Annibynwyr
- Ty'r Ysgol
- Hen Bwthyn Yr Ysogol, School Lane
- School Lane (heb ei fabwysiadu)

# 4.4 Heol y Nant

- Mae'r eiddo ar Heol y Nant a phen gogleddol Heol Berry yn enghreifftiau gwych o dai trefol sydd wedi'u dylanwadu gan egwyddorion Celf a Chrefft a'r Ardd-Bentref.
- Mae'r manylion a'r deunyddiau yn y tai hyn o ansawdd uchel iawn, er mai dim ond yn ychydig ohonynt y mae'r ffenestri fframiau metel gwreiddiol i'w gweld.
- Mae gan Heol y Nant berthynas agos â'r man agored cyhoeddus sy'n ffinio â hi.
- Mae gan yr ardal un o'r diwydiannau olaf sydd ar ôl yn yr Ardal Gadwraeth, ynghyd ag olion amlwg gweithiau diwydiannol/ mwyngloddio cynharach.
- Mae'r garejis yn Lôn yr Eglwys/Heol Berry yn anghysbell ac mewn cyflwr gwael.

## Materion

- Gallai addasiadau amhriodol i'r tai trefol gael effaith sylweddol ar gymeriad ac ansawdd pensaernïol yr ardal.
- Gall newid nodweddion presennol (e.e. ffenestri) arwain at golli manylion pensaernïol o ansawdd uchel, a fydd yn niweidiol i'r ardal.
- Mae pryderon am ddiogelwch a chyflwr y garejis yn Lôn yr Ysgol / Heol Berry.

## Cyfleoedd i Wella

- Parchu graddfeydd, cynlluniau a ffurfiau adeiladu ym mhob cais cynllunio ar gyfer datblygu.
- Cadw a diogelu deunyddiau adeiladu gwreiddiol (e.e. cerrig, brics) pan ddaw ceisiadau cynllunio i law.
- Cynnal a gwella'r dirwedd galed a'r dodrefn stryd cyhoeddus.
- Ystyried a fyddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn addas i ddiogelu'r manylion pensaernïol sydd ar ôl yn y tai hyn.

# 4.5 Georgetown

- Rhes fer o fythynnod gweithwyr blaen dwbl yw Georgetown, ynghyd ag un eiddo ar wahân tua'r dwyrain.
- Mae waliau blaen a chefn y bythynnod wedi'u haddasu'n sylweddol, er mai ar y waliau 'blaen' (gogleddol) llai amlwg y mae'r gwaith mwyaf wedi'i wneud. Mae'r rhain wedi'u hymestyn, eu rendro a'u peintio mewn gwahanol liwiau.

## Materion

- Mae rhywfaint o'r manylion gwreiddiol o hyd i'w gweld ar y tai.
- Gellid dweud mai waliau 'cefn' (gerddi) y rhes o fythynnod yw'r rhai sy'n fwyaf amlwg i'r cyhoedd.

## Cyfleoedd i Wella

- Parchu graddfeydd, cynlluniau a ffurfiau adeiladu ym mhob cais cynllunio ar gyfer datblygu.
- Cadw a diogelu deunyddiau adeiladu gwreiddiol (e.e. cerrig, brics) pan ddaw ceisiadau cynllunio i law.
- Cynnal a gwella'r dirwedd galed a'r dodrefn stryd cyhoeddus.










- Heol Berry
- Garejis Heol Berry / School Lane
- Georgetown
- Georgetown (cefn)

# 5 fframwaith ar gyfer gweithredu

Mae rhannau blaenorol o'r ddogfen hon yn disgrifio'r nodweddion a'r elfennau o ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi ble mae'n bosibl gwella. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ffyrdd y gellir defnyddio'r ddogfen er budd yr Ardal Gadwraeth.

## 5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- Creu cynllun gwella i arwain datblygiadau yn yr ardal.
- Bod yn sail i asesu ceisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 2.53 Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Adneuol).
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar ansawdd arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 5.2 Manteision Eraill y Gwerthusiad

Disgwylir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir ynghyd â chymorth Tîm Cadwraeth y Cyngor yn sicrhau'r manteision canlynol i'r ardal.

- Diogelu a gwella cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth.
- Gwell ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ymhlith y cyhoedd o gymeriad arbennig a hanes diwydiannol cyfoethog yr ardal.
- Rhoi canllawiau i berchnogion a deiliaid eiddo yn Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth.
- Rhoi cymorth i berchnogion eiddo, grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol lleol yn eu hymdrechion i ddiogelu a gwella'r Ardal Gadwraeth a'i chadw'n ardal ddeniadol i fyw ynddi.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn gweddu i'w ffurf a'i chynllun presennol.
- Creu cynllun gwella i arwain mwynhad o'r ardal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 5.3 Pwysau i Newid

Ceir pwysau a galw o bob math sy'n gallu amharu ar y gwaith o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwysau parhaol i addasu ac ymestyn adeiladau a gerddi.
- Galw parhaol am lefydd parcio ar y strydoedd, a hynny'n amharu ar y traffig.
- Colli tirwedd feddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, gerddi a choed.

- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft gwell effeithlonrwydd ynni, a diogelwch tai.
- Tagfeydd traffig, a defnydd trwm o Main Road yn ystod yr oriau traffig brig.
- Cynllun a lleoliad arwyddion ffyrdd, dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo.

# 5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

## Perchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 4 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, a cheir canllawiau penodol yn yr atodiad ynghylch diogelu adeiladau mewn cynlluniau datblygu. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

## Y Cyngor

Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

1. Mabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodir yn Atodiadau 1 a 2.

2. Rheoli cyllidebau presennol y Cyngor yn effeithiol, er enghraifft o ran:

- Atgyweirio tai
- Cymorth grant i wella effeithlonrwydd ynni mewn tai
- Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd
- Gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd ble mae galw
- Cynlluniau adnewyddu cymdogaethau
- Diogelu a gwella dyffryn yr afon.

3. Rheoli a chynnal a chadw stad y Cyngor gan gynnwys eiddo, parciau a gerddi.

4. Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth, a hynny drwy'r Cyngor Cymuned, cyrff crefyddol, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill.

# 5.5 Diogelu'r Ardal Gadwraeth


Ym mis Hydref 1981 daeth Cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 o Orchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 i rym, a oedd yn diogelu rhannau o'r Ardal Gadwraeth ymhellach drwy reoli mân ddatblygiadau. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn berthnasol i ran sylweddol o ogledd y pentref (map 4).

Yn syml, mae'r Cyfarwyddyd yn dileu'r hawliau ar gyfer Datblygiadau a Ganiateir a fyddai fel rheol yn caniatáu i berchnogion wneud mân waith ar estyniadau neu addasiadau i'w heiddo. Mae angen caniatâd cynllunio i wneud unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar ymddangosiad y bythynnod yn ardal y Cyfarwyddyd Erthygl 4, er enghraifft rhoi ffenestri neu ddrysau newydd, adeiladu portshys, codi waliau ffiniol, rhoi deunydd to newydd, rendro waliau neu osod soseri lloeren ac ati.

Daeth Cyfarwyddyd Erthygl 4 i rym yn 1981 ac mae'n dileu'r hawliau ar gyfer datblygiadau a ganiateir sydd wedi'u nodi yng Ngorchymyn Datblygu Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1977. Mae'r gorchymyn hwn wedi'i ddisodli gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Er mwyn sicrhau bod cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael ei ddiogelu, mae angen edrych eto ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol i'r gwaith o ddiogelu'r Ardal Gadwraeth, a sicrhau bod ei bwrpas, y broses o'i roi ar waith a'r broses o'i orfodi'n eglur.

## Map 5 Cyfarwyddyd Erthygl 4



# 6 Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnheir mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.
- Cyfathrebu'n well gyda'r Cyngor Cymuned, grwpiau lleol a thrigolion mewn partneriaeth â Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth y Gogledd-Orllewin.
- Rhoi'r gwerthusiad a gwybodaeth am hanes yr Ardal Gadwraeth ar gael i'w hastudio yn y llyfrgell ac mewn ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mabwysiadu'r ffin newydd a argymhellir yn adran gyntaf yr adolygiad a hysbysebu hynny'n unol â'r Ddeddf.
- Cymryd camau i adolygu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel a gynigir ym mharagraff 6.5.

# 7 Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 029 2087 3485 i gael gwybodaeth am Adeiladau Rhestredig a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pholisi cynllunio.

# Canllawiau i berchnogion eiddo a'r rhai sy'n cynllunio datblygiadau yn Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth.

**Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi ar gyfer y rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith i atgyweirio neu addasu eu tai neu eu heiddo. Mae'r canllawiau wedi'u paratoi i barchu a gwella'r cymeriad a nodir yn y gwerthusiad hwn.**

## Caniatâd

Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yng ngogledd y pentref yn dileu'r hawliau ar gyfer datblygiadau a ganiateir a fyddai fel rheol yn caniatáu i berchnogion wneud mân waith ar estyniadau neu addasiadau i'w heiddo. O ganlyniad, mae angen caniatâd cynllunio i wneud unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar ymddangosiad y bythynnod, er enghraifft rhoi ffenestri neu ddrysau newydd, adeiladu portshys, codi waliau ffiniol yn y tu blaen, rhoi deunydd to newydd, rendro waliau neu osod soseri lloeren ac ati.

Mae rhai o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u rhestru fel adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Rhaid i berchnogion yr eiddo hyn hefyd gael Caniatâd Adeilad Rhestredig cyn newid, ymestyn neu ddymchwel unrhyw ran o adeilad, yn fewnol neu'n allanol, mewn modd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ei nodweddion pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Bydd modd i swyddog rheoli datblygu roi cyngor i chi am unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol. Efallai hefyd y bydd angen i chi gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. Bydd modd i swyddog rheoli adeiladu roi cyngor i chi am y rheoliadau.

## Deunyddiau a Manylion Adeiladu

Wrth ystyried gwaith adeiladu, dylid:

- Atgyweirio'n hytrach nag ailosod ffenestri a drysau gwreiddiol
- Adeiladu waliau sy'n cyd-fynd â'r brics, y garreg neu'r rendr presennol.
- Defnyddio deunyddiau sy'n cyd-fynd ar y to.

## Ffenestri a Drysau

Rhoi drysau ac yn enwedig ffenestri newydd yw un o'r problemau dylunio mwyaf anodd. Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i ddrysau a ffenestri mewn estyniadau ac wrth osod rhai newydd mewn adeiladau presennol:

- Dylid cadw agoriadau gwreiddiol y drysau a'r ffenestri.
- Dylid cadw'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol os yw hynny'n bosibl.
- Dylai ffenestri newydd adlewyrchu'r arddull a'r deunyddiau gwreiddiol a'r dulliau gwreiddiol o'u hagor, ynghyd â phatrwm gwreiddiol y ffenestr.
- Dylai drysau newydd adlewyrchu arddull a deunyddiau'r gwreiddiol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylech ystyried i ddechrau a oes angen gosod rhai newydd o gwbl. Efallai y bydd yn bosibl atgyweirio ffenestri, a gall seiri coed crefftus wneud hynny'n rhwydd. Gall y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllunio Strategol roi enwau gwneuthurwyr ffenestri pren arbenigol i chi.

Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio ac ailosod ffenestri mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllunio Strategol.

## Simneiau

Mae simneiau yn aml yn rhan bwysig o bob grŵp o adeiladau ac yn nodweddion amlwg sy'n diffinio graddfa a gogwydd. Os yw simnai sy'n cyfrannu at gymeriad eiddo neu Ardal Gadwraeth yn mynd yn beryglus ac angen ei thrwsio, dylid ei hadeiladu i'r uchder ac yn ôl y cynllun gwreiddiol, hyd yn oed os na chânt eu defnyddio mwyach.

Os yw adeilad wedi ei restru, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Cynllunio i ddymchwel simnai. Os yw simneiau yn mynd yn segur mae hi'n bwysig sicrhau cymryd camau i gynnal y gwaith brics/cerrig a'r morter neu'r rendr. Dylid cadw'r potiau simnai gwreiddiol os ydynt yn dal yn ddiogel a chadarn. Gall gard tywydd priodol awyru'r simnai a gwarchod rhag lleithder yn y frest.

## Ffenestri Dormer a Llofftydd To

Nid yw dormerau'n nodwedd draddodiadol yn yr Ardal Gadwraeth. Dim ond mewn lleoliadau na fyddant yn cael effaith andwyol ar gymeriad y tŷ unigol neu'r Ardal Gadwraeth yr ystyrir ffenestri dormer, ac os ydyn nhw'n parchu graddfa'r tŷ ac yn diogelu cymeriad y to presennol ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Efallai y bydd ffenestri to traddodiadol yn dderbyniol mewn lleoliadau sydd ddim yn rhy amlwg, yn hytrach na dormer. Yn achos tai pâr, yn enwedig os ydynt yn gymesur, bydd angen gofalu na fydd ffenestr do yn achosi anghydbwysedd rhwng y ddau dŷ. Nid yw ffenestri to modern mewn fframiau dwfn, sy'n torri ar linell wyneb y to, yn addas.

## Deunydd y To

Dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Llechi llwydlas o Gymru sydd ar doeau'r rhan fwyaf o'r bythynnod. Mae'n hanfodol cadw'r nodwedd hon, a defnyddio llechi wedi'u hadfer neu rai newydd naturiol yw'r ffordd orau o ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Wrth ail-doi, mae'n bwysig defnyddio deunydd o'r un maint ac ansawdd â'r gwreiddiol, a dilyn lled a phatrwm y cwrs.

Dylid cadw cribau, teils ac estyll tywydd gwreiddiol.

## Portshys

Mae bythynnod y gweithwyr i gyd wedi'u codi'n agos at y ffordd ac maent yn dilyn yr un llinell adeiladu. Byddai adeiladu estyniadau portsh o flaen y tai hyn yn amharu ar undod pensaernïol y teras. Dim ond os ydynt yn dilyn y llinellau adeiladu gwreiddiol y bydd portshys yn cael eu caniatáu.

Mae portshys yn nodwedd bwysig ar waliau tai a dylid parchu'r manylion a geir ynddynt o hyd. Dylai cynigion ar gyfer portshys a chanopïau roi ystyriaeth i unrhyw linellau adeiladu gwreiddiol ynghyd â chynllun gwreiddiol yr eiddo neu'r grŵp o adeiladau dan sylw.

## Gwaith Carreg / Gorffeniadau ar Waliau

O Dywodfaen Pennant y daw cerrig y bythynnod teras – a'r rheiny'n gerrig lleol. Mae'r cerrig yn aml wedi eu torri'n fras yn sgwâr ac wedi eu gosod yn gerrig llanw ar hap. Mae'n bwysig bod gwaith carreg hanesyddol yn cael ei atgyweirio a'i adnewyddu'n gywir. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei chynnal neu ei hailbwyntio mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol. Argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

Dylid rhoi sylw i batrymau'r gwaith carreg a ddefnyddir mewn estyniadau. Defnyddir waliau o gerrig llanw ar hap yn aml ar adeiladau gwreiddiol yn y pentref. Dylai gwaith carreg newydd gael ei osod yn ôl patrymau tebyg, gydag addurniadau cerrig neu frics o amgylch drysau a ffenestri, fel sy'n addas.

Byddai rendro neu beintio bythynnod carreg yn niweidiol i gymeriad adeiladau unigol a'r Ardal Gadwraeth yn

gyffredinol. Ni ddylid rendro na pheintio gwaith carreg ar unrhyw eiddo sy'n berthnasol i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Os bydd adeiladau wedi'u rendro, dylid cynnal a chadw'r rendr hanesyddol. Os yw adeilad gwreiddiol wedi ei rendro, dylai estyniad adlewyrchu'r deunydd a'r gorffeniad.

Yn ardal y Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae wal gerrig naturiol yn rhedeg ar hyd yr holl fythynnod sy'n wynebu Main Road, gyda grisiau yn arwain i'r drysau ffrynt, a hynny'n creu gerddi bychain. Mae gan y rhan fwyaf o'r eiddo gatiau haearn gyr, ac mae ffensys haearn gyr bychain hefyd wedi'u codi ar ben y waliau cerrig, yn aml i gyd-fynd â'r gatiau.

Dylai unrhyw waith i wella, adnewyddu neu gynnal a chadw'r waliau gael ei wneud gyda cherrig naturiol a dylai dyluniad unrhyw ffensys ychwanegol gyd-fynd â'r gatiau haearn gyr sydd yno eisoes.

## Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gall gosod offer ychwanegol ar adeiladau, am ba bynnag reswm, gael effaith sylweddol ar gymeriad Ardal Gadwraeth. Os bydd yr offer hwnnw mewn lle anaddas, gall sawl achos gyda'i gilydd ddwysáu'r effaith a niweidio cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae'n annhebygol y bydd offer ar waliau ffrynt neu waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Os yw'r math hwn o offer wedi'i leoli mewn mannau anaddas ar hyn o bryd, dylid cael gwared arno pan fydd cyfle.

## Estyniadau a Datblygiadau Newydd

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Bydd angen i estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth ddiogelu neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn y ffyrdd hyn:

- Parchu ansawdd nodedig y lle, a fydd yn golygu parhau i ddefnyddio'r graen trefol presennol a rhythmau fertigol a gorweddol presennol yr adeiladau.
- Cadw golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth.
- Parchu defnydd presennol y tir.
- Atgyfnerthu hierarchaeth bresennol mannau cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o ansawdd yr un mor uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith unrhyw ddatblygiadau newydd ar amwynderau cyfagos, yn benodol o ran datblygiadau uwch ar y llethr, colli golau a datblygiadau gormesol.

Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol, fel y Canllaw Dylunio i Ddeiliaid Tai, yn rhoi gwybodaeth fanylach am y materion cynllunio ehangach hyn.

Mae datblygiadau newydd yn debygol o fod â goblygiadau tirlunio. Mae cyngor am hyn yn Atodiad 2.

Mae canllawiau ar dirlunio gan gynnwys, coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, gatiau a ffiniau tir caeedig i'w cael yn Atodiad 2, 'Cyngor am Dirlunio a Choed'.

# atodiad 2

## Coed a Thirlunio Meddal

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, waliau a gatiau. Mae mannau agored, ymylon a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio bwerau arbennig dros y materion hynny sy'n berthnasol yn yr Ardal Gadwraeth yn unig. Mae'r ystyriaethau perthnasol wedi'u nodi isod os ydych chi'n cynllunio gwaith sy'n ymwneud â'r nodweddion hyn.

## Coed

Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diogelu. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i wneud gwaith ar goed sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) o ddiamedr, ar bwynt sydd 1.5 metr (tua 5 troedfedd) o uchder. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os na fydd yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall y llys eu rhoi am beidio cyflwyno'r cais yn rhai difrifol - yr un mor ddifrifol â'r cosbau y gellir eu rhoi os byddai'r coed yn destun Gorchymyn Cadw Coed.

Nid yw gwaith yn golygu torri neu ddymchwel coeden yn unig, ond tocio neu ddifrodi gwreiddiau a changhennau hefyd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, oni bai bod perygl y funud honno, i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn tybio fod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol. Fel rheol, bydd angen ailosod coed a ddymchwelir yn anghyfreithlon, neu a ddymchwelir heb fod eithriad yn berthnasol. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Drwy wneud hynny, ni fydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân o dan y rheoliadau sy'n diogelu coed – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed o dro i dro ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Rheolir coed ar briffyrdd, neu mewn parciau, gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maent yn destun cyfundrefn reoli tymor hir a arolygir gan arbenigwr coed.

## Parcio mewn Gerddi Ffrynt

Datblygwyd yr ardal cyn i berchnogaeth ceir ddod mor gyffredin. Gall adeiladu mannau parcio oddi ar y stryd mewn talar tai unigol arwain at golli gerddi ffrynt a'r waliau ffiniol.
Os oes lle am garej, dylid ei ddylunio fel ei fod yn gweddu â'r tŷ ac mewn modd nad yw'n amharu ar yr ardal gyffredinol.

## Waliau Cerrig a Brics, Ffiniau a Rheiliau

Dylid ystyried ffiniau gerddi yn estyniad o'r adeilad y maent yn ei warchod. Maent yn rhoi diffiniad a chymeriad i olwg y stryd. Dylai unrhyw fath o waliau newydd geisio cyflawni'r un amcanion.

Dylai waliau o'r fath gael eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i sicrhau bod y gwaith carreg, yr uniadau, y morter, y copinau, y rheiliau a'r ffensys yn parchu'r adeiledd gwreiddiol.

Dylai waliau o'r fath gael eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i sicrhau bod y gwaith carreg a'r morter yn parchu'r strwythur gwreiddiol. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei chynnal neu ei hailbwyntio mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol.

## Tirlunio

Mae rhai datblygiadau'n rhoi cyfleoedd ar gyfer tirlunio meddal a dylid annog hynny. Dylid dylunio cynlluniau tirlunio meddal mewn ffordd sy'n gweddu i gymeriad yr ardal.

# atodiad 3

## Adolygiad o'r Ffin

Dynodwyd Gwaelod-y-garth yn Ardal Gadwraeth yn 1970 gan Gyngor Sir Morgannwg, gan roi cydnabyddiaeth i ansawdd hanesyddol a phensaernïol yr ardal. Ym mis Awst 1980, ymestynnwyd ffin yr Ardal Gadwraeth i gynnwys Tŷ Isaf yn y gogledd, eiddo ar ffordd y mynydd yn y gorllewin, Hen Dai'r Ysgol yn y dwyrain a Georgetown, Heol y Nant a Heol Berry (rhan ohoni) yn y de.

Yn 1996, o ganlyniad i ad-drefnu awdurdodau lleol, daeth yr Ardal Gadwraeth o dan awdurdodaeth Cyngor Caerdydd.

Cynhaliwyd adolygiad o ffiniau Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth fel rhan o Werthusiad o'r Ardal Gadwraeth yn 2007, er mwyn sicrhau bod nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg yn dal i berthyn i'r Ardal Gadwraeth.

Mae'r asesiad wedi canolbwyntio ar ardaloedd a allai gael eu cynnwys neu eu hepgor o'r Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn un cadarn a dilys, a'i fod yn dynodi ardal sydd â chymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig.







- River Glade
- River Glade
- Georgetown

## River Glade

Stad fodern o dai yw River Glade, wedi'i lleoli ar lannau Afon Taf, i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth. Datblygwyd y stad o dai beth amser ar ôl dynodi'r Ardal Gadwraeth yn wreiddiol, ac mae'r rhan fwyaf o'r stad y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth.

Roedd ffin wreiddiol yr Ardal Gadwraeth yn cyd-fynd â llwybr troed yn yr ardal hon. Fodd bynnag, ers adeiladu'r tai yn River Glade, mae'r llwybr wedi'i symud, ac o ganlyniad mae nifer o'r tai yn River Glade o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth, neu'n sefyll arni.

Gan fod cymeriad y tai yn River Glade yn wahanol iawn i rai'r Ardal Gadwraeth, a chan nad oes rhesymau pensaernïol neu hanesyddol cryf dros eu cynnwys, cynigir addasu ffin yr Ardal Gadwraeth i hepgor yr adeiladau hyn, ac ail-osod y ffin i ddilyn y llwybr cyfagos at yr afon.

## Georgetown

Mae Georgetown yn rhes fer o fythynnod blaen dwbl yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd ag un eiddo ar wahân sydd wedi'i rendro'n wyn (Tŷ'n y Coed), i'r gogledd o'r ffordd fynediad.

Tra bo'r bythynnod hyn wedi'u haddasu'n sylweddol, maent yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth. Ni chynigir eu hepgor o'r Ardal Gadwraeth.

## Heol y Nant a Heol Berry

Mae'r ardal werdd i'r de o'r Ardal Gadwraeth a'r tai cyngor cyfagos wedi'u lleoli ar hen safle Gwaith Haearn a Ffwrneisi Golosg Pentyrch.

Mae steiliau dau gyfnod adeiladu i'w gweld yn y stad. Ar hyd Heol y Nant a phen gogleddol Heol Berry mae rhes o dai cyngor o ansawdd uchel, gyda myliynau ac architrafau tywodfaen unigryw. Mae'r adeiladau hyn o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth, ac yn cynnwys llawer o'u manylion gwreiddiol, gan gynnwys rhai enghreifftiau o'r ffenestri adeiniog metel gwreiddiol.

I'r de o'r Ardal Gadwraeth, ar hyd Heol Berry, mae tai cyngor diweddarach sydd heb gymaint o fanylion arnynt. O ystyried ansawdd uchel y manylion ar y tai cymdeithasol hŷn, a'u pwysigrwydd fel datblygiad trefol dan ddylanwad egwyddorion yr Ardd-Bentref, ni chynigir addasu'r ffin i hepgor yr adeiladau hyn o'r Ardal Gadwraeth.

Tra nad oes cynlluniau i gynnwys y lawnt gerllaw yn rhan o'r Ardal Gadwraeth, mae'n cael ei gydnabod fel amwynder cyhoeddus gwerthfawr, sy'n gymorth i ddiffinio Gwaelod-y-garth fel pentref ar wahân i'r unedau diwydiannol cyfagos. Mae hynny'n cyfrannu at leoliad y cartrefi o'r ugeinfed ganrif ym mhen deheuol yr Ardal Gadwraeth.

## Nant y Garth a de Main Road

Datblygiad cul-de-sac modern yw Nant y Garth, yn cynnwys cartrefi unllawr a deulawr wedi'u rendro. Ar hyn o bryd, mae'n sefyll y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ynghyd â'r cartrefi Tŷ Isaf, Woodtrees, Woodgate, Beechleigh, Raymar, Delfryn a Green Trees, ym mhen mwyaf deheuol y pentref.

Mae'r cartrefi hyn yn dyddio o ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ac eithrio Tŷ Isaf, sydd i'w weld ar fap Arolwg Ordnans 1920. Ni chynigir ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth i gynnwys yr ardal hon.

Ystyrir bod gan yr adeilad brics coch ar wahân, Cilwendeg, ar gyffordd Main Road a Georgetown, gysylltiad gweledol cryfach rhyngddo â'r adeiladau y tu allan i'r Ardal Gadwraeth na'r rhai yn Georgetown a phentref Gwaelod-y-garth. Byddai ei gadw o fewn y ffin yn cymhlethu dealltwriaeth o bensaernïaeth, hanes a chymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Am y rheswm hwn, cynigir addasu'r ffin i hepgor yr adeilad hwn o'r Ardal Gadwraeth.

## Tŷ Newydd

Tŷ talcen dwbl wedi'i rendro'n wyn yw Tŷ Newydd, yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae ganddo ffurf syml sydd wedi'i ehangu dros y blynyddoedd i greu siâp sgwâr a thalcen dwbl. Mae'n sefyll y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, i gyfeiriad y de, ac mae modd ei gyrraedd drwy ffordd y mynydd (Heol Goch).

Tra bo hwn yn dŷ deniadol, mae'n sefyll y tu allan i ffin amlwg yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r tŷ wedi'i addasu i ryw raddau, a hynny wedi arwain at golli manylion hanesyddol fel ffenestri, estyll tywydd a'r to llechi hanesyddol. O ganlyniad i'w leoliad, ystyrir ei fod y tu allan i graidd y pentref. Mae modd ei gyrraedd a mynd tuag ato o Heol Goch, i'r de ac i ffwrdd o'r pentref, ac mae'n sefyll dros 500m i'r de o Ysgol Gwaelod-y-garth a Chapel yr Annibynwyr Bethlehem.









- Heol y Nant
- Heol Berry
- Nant y Garth
- Main Road

Mae dros 1 cilomedr i'r de o Gwaelod y Garth Inn. Mae llwybr i gerddwyr yn ei gysylltu â Main Road.

Mae Nant Cwmllwydrew, tai diweddarach o'r ugeinfed ganrif a safle'r tŷ ei hun yn ei wahanu o Georgetown a Heol-y-Nant. Nid oes unrhyw gysylltiadau pensaernïol, ffisegol na hanesyddol rhyngddynt.

Nid yw Tŷ Newydd yn adlewyrchu ansawdd nodedig y lle sy'n amlwg yn yr Ardal Gadwraeth, fel y nodwyd yn rhan 4.1 y ddogfen hon, ac nid yw'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn yr adran 'Asesu Cymeriad'.

Am y rhesymau hyn, ni chynigir cynnwys Tŷ Newydd o fewn ffiniau'r Ardal Gadwraeth.

## Casgliad

Mae'r asesiad o'r Ardal Gadwraeth a'r tir o'i hamgylch yn cadarnhau bod gan yr ardal gymeriad arbennig o hyd. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau sydd â gwerth hanesyddol a phensaernïol arbennig wedi'u diogelu ac mae tir y cyhoedd, ynghyd â'r adeiladau eraill, ar y cyfan wedi'u diogelu o ganlyniad i ddynodi'r fan yn Ardal Gadwraeth.

Mae'r ffin newydd a gynigir i'w gweld gyferbyn.


Mae gwerthusiad llawn o'r Ardal Gadwraeth newydd isod. Mae hwn yn disgrifio cymeriad yr ardal, ac ar ôl ymgynghori, bydd cyfleoedd i wella'r gwerthusiad a chreu canllawiau.





- Cilwendeg
- Ty Newydd

# Map 6 Adolygiad o Ffin Gwaelod y Garth



# atodiad 4

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Estyll Tywydd** | Byrddau pren ar ochr talcen y to, a all gynnwys manylion addurniadol. |
| **Cadw** | Adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gyda dyhead i ddiogelu neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad. |
| **Ffenestri Adennog /Casment** | Ffenestri sydd ag agoriad â cholfachau. |
| **Ffenestri Dormer** | Ffenest gyda tho wedi ei gosod ar do goleddol. |
| **Talcen** | Wal adeilad, y rhan uwch sy'n cynnal y to, siâp triongl. |
| **Lled** | Trwch neu ddyfnder. |
| **Ar oledd** | Adeiledd ble mae pwynt uchaf ei do yn gorffwys ar wal arall. |
| **Adeilad rhestredig** | Adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. |
| **Morter** | Deunydd sy'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu i lenwi'r bylchau rhwng cerrig neu frics a'u glynu wrth ei gilydd. |
| **Conglfeini** cael eu | Cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurniadol ar gorneli adeilad. Mae'r cerrig yn gosod fel arfer mewn patrwm bach a mawr am yn ail. |
| **Rendr** | Gorchudd plastr, calch neu sment. |
| **Ail-bwyntio** | Atgyweirio'r uniad rhwng gwaith cerrig. |
| **Teils crib** | Teils sy'n gorchuddio pwynt uchaf to. |
| **Ffenestr do** | Agoriad â gwydr arno mewn to. |
| **Plastr garw** | Rendr garw. |
| **Cerrig llanw** | Cerrig o siâp a maint afreolaidd. |
| **Gorchymyn Cadw Coed** | Gorchymyn sy'n diogelu coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn. |

# Cyfeiriadau


- Buildings of Wales: Glamorgan. J Newman, Penguin Books, 1995
- The Illustrated History of Cardiff's Suburbs. D Morgan, Breedon Books, 2003
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Datganiad Ysgrifenedig Adneuol). Cyngor Dinas Caerdydd, 2003
- Cynllun Lleol Taf Elái, Drafft Adneuol  Cyngor Bwrdeistref Taf Elái, 1995.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (a Gyflwynwyd) Cyngor Dinas Caerdydd, 2003
- Cynllun Lleol Creigiau, Pentyrch a Gwaelod-y-garth.  Cyngor Bwrdeistref Taf Elái.  Chwefror 1992.
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Cyngor Dinas Caerdydd, 1997
- Cynllun Strwythur Sir Morgannwg Ganol, Cyngor Sir Morgannwg Ganol, 1989
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol
- Canllaw Dylunio i Ddeiliaid Tai. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007


# Diolchiadau


- Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth y Gogledd Orllewin
- Cyngor Cymuned Pentyrch
- Archifdy Morgannwg
- Cadw


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth:


**Cynllunio Strategol**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,**
**Caerdydd, CF10 4UW**
**Ffôn: (029) 2087 3477**

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3477